# Iaith a Therminoleg

## Cyflwyniad ar gyfer Athrawon

### Beth yw hiliaeth yn yr ysgol?

Mae hiliaeth yn digwydd pan fydd disgybl, neu athro, yn cael ei drin yn llai ffafriol oherwydd lliw eu croen, eu cenedligrwydd, eu crefydd neu gred, neu eu diwylliant.

### Sut y gellir ei adnabod?

- Cam-drin geiriol, bwlio ar-lein, cam-drin corfforol a gwahardd o weithgareddau.
- Y math mwyaf cyffredin mae disgyblion yn wynebu yw cam-drin geiriol trwy ddefnydd terminoleg a stereoteipio hiliol.

### Pam mae deall iaith a therminoleg mor bwysig?

- Mae iaith yn ddull pwerus iawn ar gyfer strwythuro agweddau.
- Mae Iaith a therminoleg yn dylanwadu ar sut mae disgyblion yn gweld eu hunain, pobl eraill a'r byd o'u cwmpas.
- Gall iaith a therminoleg gyfrannu at greu systemau cred a stereoteipio hiliol parhaus.

### Beth allai wneud i helpu'r myfyrwyr?

Datblygu ymwybyddiaeth a sensitifrwydd eich hun a'ch disgyblion tuag at botensial iaith i fod yn wahaniaethol a gormesol.

- Sicrhau bod myfyrwyr yn gwybod beth sy'n dderbyniol ac yn annerbyniol a pham.
- Mae'n rhaid i chi gydnabod bod rhai geiriau ac iaith benodol yn annerbyniol i'w ddefnyddio, hyd yn oed os nad oes bwriad i fod yn hiliol yn bodoli. Nid yw diniweidrwydd y bwriad yn newid yr effaith mae'r geiriau yn gallu ei gael.
- Eich cyfrifoldeb chi yw herio a chofnodi pob defnydd o derminoleg hiliol, beth bynnag fo'r bwriad, gan ddilyn y canllawiau 'ymateb i a chofnodi hiliaeth'.

## Felly, pa derminoleg sy'n dderbyniol ac yn annerbyniol?

| ✗ Pam? | ✓ Pam? |
|---|---|
| **Croenddu**<br>Defnyddir yn hanesyddol mewn ffordd ddirmygus i wahanu pobl du. Penderfynodd pobl wen mai hwn oedd y gair i'w ddefnyddio i ddisgrifio unrhyw un nad oedd yn wyn, a allai awgrymu fod bod yn wyn yn 'normal'. | **Du**<br>Mae 'Du' yn derm sydd wedi'i ddewis ac yn cael ei ddefnyddio gan bobl ddu. Mae yna lawer o sibrydion sy'n achosi pryder ac yn gwneud i bobl deimlo'n anghyfforddus ynglŷn â'i ddefnyddio. Nid oes angen pryderu gan ei fod yn gwbl dderbyniol ei ddefnyddio fel term disgrifiadol. |
| **Nigger/Nigga**<br>Yn wreiddiol fel term i gyfeirio tuag at bobl ddu fel amrywiad o'r enw Sbaeneg / Portiwgaleg 'negro' - ansoddair Lladin sy'n golygu 'du'. Yn hanesyddol defnyddiwyd nigger yn fwriadol fel gair dirmygus mor gynnar â'r 17eg ganrif. Mae'n mynd law yn llaw gyda'r fasnach gaethweision, lladdiadau heb brawf di-rif, disbaddu, curo, gweithredoedd o losgi bwriadol, ac ymosodiadau hiliol eraill yn erbyn pobl groenddu. Mae'r fasnach gaethweision ei hun wedi arwain at farwolaethau tua 22-55 miliwn o bobl groenddu. | **Du**<br>Mae'r gair du yn disgrifio lliw croen, nid y gair nigger. Mae nigger yn air cymhleth gan fo'r diwylliant hip hop yn ceisio ail adfeddu'r gair i olygu 'ffrind'. Fodd bynnag, hyd yn oed pan mae pobl yn ceisio adfeddu'r gair nigger mae ei hanes yn dal i fodoli. Mae'r gair gyda chyswllt anorfod gyda thrais a chreulondeb ar hunanwerth pobl groenddu a cham-drin corfforol ar gyrff pobol groenddu. Ni all unrhyw faint o adfeddu dileu hynny. Mae caniatáu i ddisgyblion du neu wyn ddefnyddio'r gair hwn i ddisgrifio rhywun yn annerbyniol. |
| **Hanner-Cast (Half-Caste)**<br>Defnyddir yn hanesyddol i ddisgrifio pobl o hîl neu ethnigrwydd cymysg. Mae'n cael ei ddeillio o'r gair Lladin 'Castus', sy'n golygu pur. Mewn geiriau eraill mae hanner-cast yn golygu rhywun oedd yn hanner pur. Yn Awstralia, mae'r term hanner-cast yn cael ei ddefnyddio yn eang yn y Cyfreithiau Gymanwlad Brydeinig yn ystod y 19eg a'r 20fed ganrif i gyfeirio at blant a aned i drefedigaethwyr Gwyn a pherson Aberiginaidd. Nododd ddeddfau yn galluogi llywodraeth Awstralia i atafaelu plant o'r fath a'u cymryd oddi wrth eu rhieni. | **Cymysg**<br>Mae 'rhieni cymysg', 'treftadaeth gymysg' a 'hil gymysg' yn ddewisiadau derbyniol i ddisgrifio ethnigrwydd person. Fodd bynnag, wrth ddefnyddio 'hil gymysg', mae'n bwysig cofio bod 'hil' yn lluniad cymdeithasol ac nid oes gwahanol hiliau o fewn dynoliaeth. |

## Felly, pa derminoleg sy'n dderbyniol ac yn annerbyniol?

| ✗ Pam? | ✓ Pam? |
|---|---|

**Gypo / Pikey**

Termau difrïol sydd yn cael eu defnyddio i ddisgrifio Sipsiwn neu Deithwyr. Ddefnyddir gan rhai pobol i ddisgrifio person sydd yn edrych yn flêr ac felly yn creu cysylltiadau negyddol tuag at Sipsiwn. Mae Pikey yn deillio o'r gair pike a'r gair tyrpeg (turnpike) sydd yn gysylltiedig â thollffordd a chasglwyr toll.

**Sipsiwn/TTeithiwr**

Gall y termau Sipsi, Roma neu Deithiwr fod yn briodol ond rhaid bod yn ofalus gan fod llawer o wahanol grwpiau o Sipsiwn a Theithwyr felly mae'n bwysig dod i adnabod sut mae'r unigolyn/grŵp yn cyfeirio tuag at eu diwylliant ei hunain.

**Paki**

Yn ystod y 1970au a'r 80au wynebodd Prydain don o drais hiliol. Roedd hyn yn cynnwys gangiau roedd yn ymosod yn frwnt ar unrhyw berson oedd yn debygol i ddod o De Asia neu o dras Dde Asaidd oherwydd lliw eu croen. Gelwir hyn yn 'Paci-bashing'. Mae pobl o wahanol oedran a chefndir wedi cael eu hymosod arnynt yn gorfforol ac ar lafar, gyda rhai wedi cael eu llofruddio.

**Pacistanaidd/Asiaidd**

Pacistanaidd yw'r term cywir ar gyfer cenedligrwydd person o Bacistan. Mae pak yn golygu 'pur' mewn Wrdw a Phersaeg ac ystyr 'stan' yw 'man neu tir' yn Bersaeg. Felly ystyr y gair Pacistan yw tir y pur. Yn y Saesneg, mae'r 'i' wedi ei ychwanegu er mwyn hwyluso'r ynganiad. Mae pobl o gefndir Asiaidd weithiau yn cyfeirio at eu hunain fel 'brown', sy'n ddisgrifydd derbyniol, ynghyd â'r term Asiaidd.

**Chinky**

Slur ethnig ydy chinky (hefyd chinc) sy'n cyfeirio yn bennaf at berson o ethnigrwydd Tsieineaidd, er ei fod yn cael ei ddefnyddio weithiau i gyfeirio at bobl o dras Asiaidd arall, neu at bobl sydd â nodweddion ffisegol sy'n nodweddiadol o lawer o bobl Asiaidd.

**Tseiniaidd**

Tseinïaidd yw'r term cywir ar gyfer cenedligrwydd person o Tsieina (China). China yw'r cyfieithiad Saesneg ar gyfer Zhongguo, y credir ei fod wedi dod yn boblogaidd yng nghanol y 19eg ganrif.